

Adran 13

Chwythu'r chwiban (cofnodi cyfrinachol)

Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl, neu sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, fod â gweithdrefnau priodol ar gyfer chwythu'r chwiban, a diwylliant sy'n hwyluso'r broses o fynd i'r afael â phryderon a honiadau yn ymwneud â diogelu. Yn benodol, mae angen bod yn ymwybodol bod lles plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn bwysicach na dim. Diben chwythu'r chwiban fel rhan o'r gweithdrefnau diogelu yw annog a galluogi unrhyw un sydd â phryder difrifol i fynd ati i fynegi'r pryder hwnnw.

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gweithio yn yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddeiliaid swydd, gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr, yn ei chael yn anodd siarad am eu pryderon a'u mynegi, gan deimlo eu bod yn bradychu eu cydweithwyr neu'r eglwys. Hefyd, gallent boeni am ddioddef aflonyddu neu erledigaeth.

Mae'r gyfraith yn amddiffyn chwythwyr chwiban yn erbyn erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais maes o law os ydynt wedi codi'r mater dan sylw oherwydd pryder gwirioneddol. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr yn erbyn cael eu diswyddo neu eu cosbi o ganlyniad i ddatgelu pryderon difrifol penodol. Mae'r polisi yn amddiffyn gwirfoddolwyr hefyd.

Cyfrinachedd ac aros yn ddiennw

Mae'n bwysig bod unigolyn sy'n mynegi pryder yn nodi ei enw wrth wneud yr honiad ac nad yw'n aros yn ddiennw. Bydd pryderon sy'n cael eu mynegi'n ddiennw yn cael eu hystyried, ond maent yn llai grymus o lawer ac mae'n llawer anoddach ymchwilio iddynt a'u profi. Mae modd mynegi pryderon yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ar yr adeg briodol, mae'n bosibl y gofynnir i'r chwythwr chwiban gamu ymlaen fel tyst wrth geisio datrys y mater.

Mynegi pryder

Os oes gan unigolyn unrhyw bryderon bod rhywun yn yr eglwys yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r polisiau diogelu hyn, dylai gysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol yn y lle cyntaf.

Os nad yw'r unigolyn yn teimlo ei fod yn gallu cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol, neu os yw'r honiad yn ymwneud â'r Swyddog Diogelu Taleithiol, dylid gofyn i'r Pennaeth Diogelu am gymorth.

Mae modd mynegi pryderon ar lafar yn y lle cyntaf, ond bydd angen eu cofnodi ar ffurf ysgrifenedig wedyn gan nodi hanes y pryder, cymaint o fanylion â phosibl ac unrhyw dystiolaeth ategol.

Gorau po gyntaf y caiff pryderon eu mynegi er mwyn rhoi camau gweithredu ar waith.

Sut bydd yr Eglwys yn ymateb

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymrwymo i leihau unrhyw berygl i unigolyn sy'n mynegi pryder yn ddidwyll, a bydd yn cefnogi unrhyw unigolyn sy'n gwneud hynny. Ni fydd yn goddef erledigaeth, bygythiadau neu effaith negyddol ar unrhyw un sy'n mynegi pryder yn ddidwyll, a bydd yn gweithredu i atal hyn. Mae'n bosibl y bydd y chwythwr chwiban yn cael ei alw i roi dystiolaeth

mewn achos troseddol neu ddisgyblu. Os yw hyn yn digwydd, bydd yn derbyn cyngor ar y weithdrefn ac unrhyw gymorth gofynnol posibl.

Bydd ymholiadau cychwynnol yn cael eu gwneud i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol, ac os ydyw, pa fath o ymchwiliad sydd ei angen.

Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, bydd y chwythwr chwiban yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

Diwedd